Strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

<table>
<tr><th colspan="2">DIPLOMA SYLFAEN BAGLORIAETH CYMRU</th></tr>
<tr><th>Tystysgrif Graidd</th><th>Opsiynau</th></tr>
<tr><td>1. Ennill ardystiad mewn pedwar o’r chwe sgìl allweddol ar lefel 1 (Sgiliau Hanfodol Cymru a’r Sgiliau Allweddol Ehangach), gan gynnwys o leiaf un Sgìl Hanfodol Cymru - Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif neu TGCh. Rhaid bod tystiolaeth hefyd o ddatblygu’r ddau sgìl sy’n weddill.</td><td rowspan="3">Unrhyw gymwysterau allanol ar lefel 1 sydd wedi’u cymeradwyo i’w defnyddio yng Nghymru.

Cywerth i 480 ADA (GLH), er enghraifft

1. Pedair gradd D – G yn y TGAU

neu

2. NVQ/Cymhwyster Galwedigaethol (VRQ) lefel 1

neu

3. Prif Ddysgu Lefel 1 - 240 ADA y mae’n rhaid i leiafswm o 50% fod yn ddysgu cymhwysol. Mae Prif Ddysgu:
a) yn gysylltiedig â sector, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau sy’n berthnasol i’r sector;
b) yn gosod pwyslais ar ddysgu trwy wneud a chynnwys 120 ADA sy’n ymwneud â chymhwyso gwybodaeth a sgiliau trwy waith perthnasol a thasgau sy’n gysylltiedig â gwaith;
c) yn darparu cyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth i alluogi’r sgiliau allweddol gofynnol yn y craidd i gael eu hasesu, fel y bo’n briodol i’r llinell ddysgu a’r lefel.

A
Cymhwyster Project Sylfaen
Ennill ardystiad mewn cymhwyster Project Sylfaen [lefel 1] (60 ADA)

AC
Unrhyw gymhwyster [cymwysterau] allanol cymeradwyedig ar y FfCC lefel 1 sy’n gywerth i neu’n lleiafswm o 180 ADA
Noder:
Cymhwyster Project
Gall ymgeiswyr sy’n dewis cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau Prif Ddysgu ddewis y cymhwyster project hefyd.</td></tr>
<tr><td>2. Ennill lefel 1 ar gyfer Ymchwiliad Unigol sy’n codi o agwedd o’r Craidd (20 awr).
Noder:
Ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy’n dewis y cymhwyster Project Sylfaen yn yr opsiynau ymgymryd â’r Ymchwiliad Unigol, ar yr amod bod y Project Sylfaen hefyd yn cwrdd â gofynion CBC.</td></tr>
<tr><td>3. Dangos bod gofynion cwricwlwm y Craidd wedi’u cwblhau’n foddhaol fel y manylir isod. Mae’r oriau’n dybiannol.

i) Cymru, Ewrop a’r Byd (CEB) - 60 awr ar bedair elfen sy’n ymdrin â materion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a Modiwl Iaith 20 awr.

ii) Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) 30 awr o 'Gweithio gyda Chyflogwr' a 15 awr o ‘Gweithgaredd Menter Tîm’.

iii) Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) - 30 awr a 15 awr o 'Cyfranogiad Cymunedol'.</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm o 250 o oriau addysgu tybiannol</td><td>Cyfanswm o 480 ADA</td></tr>
<tr><td colspan="2">Fel y bo’n briodol, gall elfennau o’r craidd gael eu cyflawni trwy’r Opsiynau</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">DIPLOMA CANOLRADD BAGLORIAETH CYMRU</th></tr>
<tr><th>Tystysgrif Graidd</th><th>Opsiynau</th></tr>
<tr><td>1. Ennill ardystiad mewn pedwar sgìl allweddol (Sgiliau Hanfodol Cymru a’r Sgiliau Allweddol Ehangach), gan gynnwys o leiaf dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1. Rhaid iddynt gynnwys pob un o’r tri Sgìl Hanfodol Cymru - Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh. Rhaid bod tystiolaeth hefyd o ddatblygu’r ddau sgìl sy’n weddill.</td><td rowspan="3">Unrhyw gymwysterau allanol ar lefel 2 sydd wedi’u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru.

Cywerth i 480 ADA (GLH), er enghraifft

1. Pedair gradd A* - C yn y TGAU

neu

2. NVQ/Cymhwyster Galwedigaethol (VRQ) lefel 2

neu

3. Prif Ddysgu lefel 2 - 420 ADA y mae’n rhaid i leiafswm o 50% fod yn ddysgu cymhwysol. Mae Prif Ddysgu:
a) yn gysylltiedig â sector, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau sy’n berthnasol i’r sector;
b) yn gosod pwyslais ar ddysgu trwy wneud a chynnwys 210 ADA sy’n ymwneud â chymhwyso gwybodaeth a sgiliau trwy waith perthnasol a thasgau sy’n gysylltiedig â gwaith;
c) yn darparu cyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth i alluogi’r sgiliau allweddol gofynnol yn y craidd i gael eu hasesu, fel y bo’n briodol i’r llinell ddysgu a’r lefel.

A
Cymhwyster Project Uwch
Ennill ardystiad mewn cymhwyster Project Uwch [lefel 2] (60 ADA)

Noder:
Cymhwyster Project Uwch
Gall ymgeiswyr sy’n dewis cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau Prif Ddysgu ddewis y cymhwyster project hefyd.</td></tr>
<tr><td>2. Ennill lefel 2 ar gyfer Ymchwiliad Unigol sy’n codi o agwedd o’r Craidd (20 awr).
Noder:
Ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy’n dewis y cymhwyster Project yn yr opsiynau ymgymryd â’r Ymchwiliad Unigol, ar yr amod bod y Project Uwch hefyd yn cwrdd â gofynion CBC.</td></tr>
<tr><td>3. Dangos bod gofynion cwricwlwm y Craidd wedi’u cwblhau’n foddhaol fel y manylir isod. Mae’r oriau’n dybiannol.

i) Cymru, Ewrop a’r Byd (CEB) - 60 awr ar bedair elfen sy’n ymdrin â materion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a Modiwl Iaith 20 awr.

ii) Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) – 30 awr o ‘Gweithio gyda Chyflogwr’ a 15 awr o ‘Gweithgaredd Menter Tîm’.

iii) Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) - 30 awr a 15 awr o 'Cyfranogiad Cymunedol'.</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm o 250 o oriau addysgu tybiannol</td><td>Cyfanswm o 480 ADA</td></tr>
<tr><td colspan="2">Fel y bo’n briodol, gall elfennau o’r craidd gael eu cyflawni trwy’r Opsiynau</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">DIPLOMA UWCH BAGLORIAETH CYMRU</th></tr>
<tr><th>Tystysgrif Graidd</th><th>Opsiynau</th></tr>
<tr><td>1. Ennill ardystiad mewn tri sgìl ar lefel 3 (Sgiliau Hanfodol Cymru a’r Sgiliau Allweddol Ehangach), gan gynnwys o leiaf un Sgìl Hanfodol Cymru - Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif neu TGCh, ynghyd ag ardystiad mewn sgiliau eraill ar lefel 2.</td><td rowspan="3">Unrhyw gymwysterau allanol ar lefel 3 sydd wedi’u cymeradwyo i’w defnyddio yng Nghymru.

Cywerth i 720 ADA (GLH), er enghraifft

1. Dwy radd A – E yn y TAG

neu

2. NVQ/Cymhwyster Galwedigaethol (VRQ) lefel 3

neu

3. Prif Ddysgu lefel 3 - 540 ADA y mae’n rhaid i leiafswm o 50% fod yn ddysgu cymhwysol. Mae Prif Ddysgu:
a) yn gysylltiedig â sector, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau sy’n berthnasol i’r sector;
b) yn gosod pwyslais ar ddysgu trwy wneud a chynnwys 270 ADA sy’n ymwneud â chymhwyso gwybodaeth a sgiliau trwy waith perthnasol a thasgau sy’n gysylltiedig â gwaith;
c) yn darparu cyfleoedd i gynhyrchu tystiolaeth i alluogi’r sgiliau gofynnol yn y craidd i gael eu hasesu, fel y bo’n briodol i’r llinell ddysgu a’r lefel.
A
Cymhwyster Project Estynedig
Ennill ardystiad mewn cymhwyster Project Estynedig [lefel 3] (120 ADA)
AC
Unrhyw gymhwyster [cymwysterau] allanol cymeradwyedig ar y FfCC lefel 3 sy'n gywerth i leiafswm o 60 ADA
Noder:
Cymhwyster Project Estynedig
Gall ymgeiswyr sy’n dewis cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau Prif Ddysgu ddewis y cymhwyster Project Estynedig hefyd.</td></tr>
<tr><td>2.
Ennill lefel 3 ar gyfer Ymchwiliad Unigol sy’n codi o agwedd o’r Craidd (20 awr).</td></tr>
<tr><td>3. Dangos bod gofynion cwricwlwm y Craidd wedi’u cwblhau’n foddhaol fel y manylir isod. Mae’r oriau’n dybiannol.

i) Cymru, Ewrop a’r Byd (CEB) - 60 awr ar bedair elfen sy’n ymdrin â materion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a Modiwl Iaith 20 awr.

ii) Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) – gan gynnwys 30 awr o ‘Gweithio gyda Chyflogwr’ a 30 awr o ‘Gweithgaredd Menter Tîm’.

iii) Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) - 30 awr a 30 awr o 'Cyfranogiad Cymunedol'.</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm o 280 o oriau addysgu tybiannol</td><td>Cyfanswm o 720 ADA</td></tr>
<tr><td colspan="2">Fel y bo’n briodol, gall elfennau o’r craidd gael eu cyflawni trwy’r Opsiynau</td></tr>
</table>